



Gwasanaeth Democratiaeth
Democracy Service
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG
PORTHMADOG HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

5.30PM DYDD MERCHER, 6 MAWRTH, 2013

5.30PM WEDNESDAY, 6 MARCH, 2013

****Noder amser cychwyn y cyfarfod os gwelwch yn dda****

****Please note the meeting start time****

Lleoliad / Location

YSTAFELL GLASLYN, Y GANOLFAN, PORTHMADOG

Pwynt Cyswllt / Contact Point

IOAN HUGHES (01286 679780)

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 26-02-13

AELODAETH/MEMBERSHIP:

Cyngor Gwynedd:

| | |
|----------------------------|-----------------------------|
| Cyng/Cllr Selwyn Griffiths | (Aelod Lleol/Local Member) |
| Cyng/Cllr Alwyn Gruffydd | (Aelod Lleol/Local Member) |
| Cyng/Cllr Jason Humphreys | (Aelod Lleol/ Local Member) |

Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

| | |
|------------------------|--|
| Cyng/Cllr Gwyn Davies | (Cyngor Tref Porthmadog / Porthmadog Town Council) |
| Mr. David W. Eastwood | (Cynrychioli Buddiannau'r Harbwr / Representing Harbour Interests) |
| Dr. John J. Morris | (Cynrychioli'r Buddiannau Hamdden / Representing Leisure Interests) |
| Mr David McLean | (Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir / Representing Landowners Interests) |
| Mr Ian Roberts | (Cynrychioli'r Buddiannau Diwydiannol / Representing Industrial Interests) |
| Mr Robert Owen | (Cynrychioli'r Buddiannau Masnachol / Representing Commercial Interests) |
| Mr Peter Lunt Williams | (Sefydliad y Bâd Achub Cricieth / Lifeboat Institution) |

Sylwedyddion / Observers

| | |
|----------------------------|---|
| Cyng/Coun David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi Aberdyfi Harbour Consultative Committee |
| Cyng/Coun Gethin Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw Barmouth Harbour Consultative Committee |
| Cyng/Coun R.J. Wright | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli Pwllheli Harbour Consultative Committee |

Noder bod y cyfarfod yn cychwyn am 5.30pm

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2012, fel rhai cywir (copi yma -papur **melyn**)

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

6. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, (copi yma – papur **glas**)

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 9 Hydref, 2013..

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG,
10 HYDREF, 2012**

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Jason Humphreys, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), a Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub),

HEFYD YN BRESENNOL: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, (Cyngor Gwynedd) a Robert Owen, (Buddiannau Masnachol).

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog am 2012/13

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog am y flwyddyn 2012/13

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2012, fel rhai cywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

a) Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod heb ddatrys y sefyllfa ynglyn a defnydd a fu wedi ei adael ger y bont rhwng yr harbwr a Llyn Bach. Ychwanegwyd bod y deunydd yn effeithio ar yr angorfeydd a bod mwd yn casglu gyda llif yr afon o achos y sefyllfa. Cadarnhaodd y Swyddog fod y mater yn parhau i gael sylw.

6. ETHOL SYLWEDYDDION

PENDERFYNWYD ethol Dr. J. Jones Morris i gynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog, fel sylwedydd, ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Harbwr Abermaw a Harbwr Pwllheli.

7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Mordwyo ac Angorfeydd

i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at Gôd Diogelwch Harbyrau a gyhoeddwyd yn 2002. Amlinellodd y prif bwyntiau a geir ynddo ac esboniodd y bydd y Côd yn cael ei adolygu yn y dyfodol agos.

Ychwanegodd fod bwriad i anfon copi o'r Côd Diogelwch ar ei ffurf bresennol i'r aelodau cyn Gwyl y Nadolig. Yna caiff y Côd diwygiedig ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod ar 6 Mawrth, 2013. Yn dilyn hyn caiff ei adolygu bob tair blynedd.

ii) Dosbarthwyd copi o Orchymyn Harbwr Porthmadog i'r aelodau. Nodwyd mai hwn yw unig Bwyllgor Harbwr Statudol Cyngor Gwynedd, ac fe adroddwyd y byddai modd ystyried cyfansoddiad tebyg ar gyfer holl Pwyllgorau harbyrau Aberdyfi; Abermaw a Phwllheli.

iii) Nodwyd bod gwaith a wnaed wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn safon y cymhorthion mordwyo a bod hyn wedi ei adlewyrchu yn archwiliadau Tŷ'r Drindod. 'Roedd yr Adran yn ymwybodol o'r gwelliannau a awgrymwyd yn sgil yr archwiliadau a chadarnhawyd bod y gwaith wedi ei gwblhau. Yn ogystal dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu bwiau yn hytrach na dilyn y drefn o'u prynu.

Galwyd am adborth gan y morwyr mewn perthynas â nifer cymhorthion mordwyo a'u safleoedd.

iv) Esboniwyd bod bwiau parth traethau yn cael eu gosod er mwyn gwahanu rhai sy'n ymdrochi a'r cychod sydd gyda phropellerau a bod defnydd llawn yn cael ei wneud ohonynt yn Morfa Bychan.

Ychwanegwyd bod y peryglon sy'n bodoli wedi eu tanlinellu pan anafwyd bachgen ifanc yn harbwr Porthmadog yn ystod yr haf. Cyfeiriwyd at y modd effeithiol y bu i'r gwasanaethau brys a swyddogion yr Adran Forwrol ymateb i'r digwyddiad.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi adrodd i'r '*Marine Accident Investigation Branch*'. Dymunwyd adferiad buan i'r bachgen a anafwyd.

v) Mae tua £4,000 wedi ei neilltuo ar gyfer cynnal a chadw angorfeydd a chadarnhawyd y caiff gwaith ei wneud yn ystod misoedd y gaeaf fe bo holl angorfeydd wedi eu cynnal cyn Gwyl Y Pasg 2013. Yn sgil gwaith a wnaed yn gyson mae'r cadwyni mewn cyflwr da.

Ystadegau Morwrol

i) Nodwyd bod cyfanswm y cychod ar angorfeydd yn Harbwr Porthmadog wedi gostwng i 164, o'i gymharu â 173 yn 2011. Ychwanegwyd bod gostyngiad i'w weld mewn harbyrau eraill hefyd ac ym Marina Pwllheli.

Ychwanegwyd bod hyn yn adlewyrchu sefyllfa economaidd sydd yn y diwydiant morwrol ar hyn o bryd. Nodwyd ymhellach fod yna or-gapasiti mewn harbyrau a marinas ar draws Prydain a bod effaith y tywydd anffafriol gydol yr haf hefyd yn amlwg..

Cyllidebau

i) Nodwyd bod cyllid o £39,780 ar gyfer costau gweithwyr a bod arbediad o £6,712 wedi ei sicrhau.

ii) O safbwynt adeiladau, 'roedd cyllid o £20,550, a gwnaed arbediad o £16,136. Fodd bynnag, eglurwyd bod £12,000 o'r swm yma wedi ei drosglwyddo o bennawd arall dros dro ond bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw'r arian ym Mhorthmadog.

iii) Cyfeiriodd y Swyddog yn benodol at gyfanswm y gwariant o £70,960 yn Harbwr Porthmadog a bod hyn yn dangos arbediad o £27,373, Nododd bod rhedeg harbwr gyda chymlethodau ond o'r safon yr hyn a geir ym Mhorthmadog o fewn ffiniau cyllidol mor gyfyng yn effeithiol iawn.

iv) Gosodwyd targed incwm o £75,460 ar gyfer yr harbwr, ac er bod yr incwm £4,500 yn fyr o'r targed gwelwyd cyfanswm arbedion o £22,000. Golyga hyn fod yr harbwr yn cael ei reoli yn effeithiol. Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad am y gwaith effeithiol yma.

v) Mewn ymateb i ymholiad pellach parthed yr arbediad o £27,000, nododd y swyddog nad oes llwyddiant o'r fath i'w weld mewn manau eraill. Ychwanegodd fod effeithlonrwydd y staff ym Mhorthmadog yn ei gwneud yn bosib i arbedion gael eu gwneud er mwyn helpu manau eraill.

Tynnodd sylw at y ffaith fod y targed incwm yr Adran, ar wahân i Barciau Gwledig, ar gyfer y flwyddyn nesaf yn £2.6miliwn a bod hyn yn heriol iawn yn sgil yr hinsawdd economaidd fregus rydym ynddo.

vi) Eleni gosodwyd targed incwm o £215,370 ar gyfer y traethau, a nodwyd mai £150,611 a gasglwyd a bod hyn yn golygu bwlch o yn agos i £65,000. Pwysleisiwyd bod hyn yn enghraifft arall o effaith y tywydd anffafriol.

vii) O safbwynt ffioedd a thaliadau'r flwyddyn nesaf, nodwyd y bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'w rhewi neu godi 1% ar un elfen ohonynt yn unig. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau.

viii) Croesawyd gwybodaeth ynglŷn â maes parcio'r harbwr a sicrhodd oddeutu £6,000 o elw a chaiff yr arian ei gynnwys yng nghyllideb yr harbwr.

Gwelliannau

i) Nodwyd bod gwaith sylweddol, oedd yn cynnwys tacluso cyffredinol, wedi ei gwblhau ym Morth y Gest.

ii) Ym Mhorthmadog, nodwyd mai'r angen pennaf yw cadw'r safon a osodwyd. Yn ogystal, bwriedir ymestyn ardal storio cychod gweini ger y llithrfa gyhoeddus.

ii) Mewn ymateb i'r son a fu ynglŷn â llongau'n dod i Borthmadog mewn perthynas â gwaith o gryfhau peilonau trydan, nododd y swyddog nad oedd cais ffurfiol wedi ei derbyn ac nad oedd gwybodaeth wedi ei gyflwyno gan unrhyw gontractwr arfaethedig. 'Roedd aelod yn ymwybodol o gyfarfod a oedd yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon i drafod y mater ynghyd ag arddangosfa yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn yn ddiweddarach.

Cadarnhawyd y bydd gwybodaeth yn cael ei roi i'r Cadeirydd pe bydd angen trafod unrhyw ddatblygiad.

iii) Cafwyd buddsoddiad o £150,000 drwy Arfordir Gwyrdd ar gyfer adeiladu toiledau newydd ym Morfa Bychan. Eisoës dechreuwyd ar y gwaith adeiladu a disgwylir agor y toiledau'n swyddogol erbyn 1 Ebrill, 2013.

Staffio

i) Nodwyd mai staff tymor y Gaeaf sydd bellach yn gweithio a bod yr adnoddau felly'n prinhaus.

Troseddau

Nododd aelod bod troseddau, megis lladrata oddi ar gychod, yn cynyddu ac yn amlwg yn ardal Porthmadog. Mae hyn yn achos pryder i'r Heddlu, ac yn sgil hyn bwriedir gweithio o fewn cynllun 'Marine Watch', ac ym mis Ionawr bydd ffurflenni'n cael eu hanfon i bob perchennog cwch yn yr ardal yn gofyn iddynt gofrestru eu heiddo gyda'r Heddlu.

Gorchymyn Baw Cŵn

i) Nodwyd bod y Cyngor yn ymgynghori ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o gael Gorchymyn Cŵn i Wynedd gyfan. Byddai'r Gorchymyn yn golygu newidiadau yn ardal Porthmadog.

Gwnaed cynnig i Draeth Borth y Gest fod yn ardal gwaharddiad cŵn. Yn ogystal, awgrymir newidiadau ym Morfa Bychan er mwyn sicrhau na fydd gwaharddiad yn amharu ar Lwybr yr Arfordir.

ii) Cyfeiriodd aelodau at broblemau sy'n bodoli a nododd y Swyddog fod ymgynghoriad y Cyngor yn rhoi cyfle i'r cyhoedd leisio barn.

iii) Yn sgil cael y toiledau newydd a chael gorchymyn gwahardd cŵn, bwriedir gwneud cais am Faner Las ar Draeth Morfa Bychan erbyn 2013. Ni lwyddwyd i gyrraedd safon Baner Las ar Draeth Morfa Bychan ar unrhyw adeg yn y gorffennol.

Diogelwch

Mynegwyd pryder gan aelod oherwydd bod camymddwyn yng nghyffiniau'r Harbwr yn creu peryglon. Nododd bod y ddamwain a ddigwyddodd yn yr haf pan anafwyd bachgen ifanc gyda phropeller cwch wedi deillio o hyn.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a bod sylw pellach yn cael ei roi i'r mater o gamymddwyn a diogelwch yn y cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth, 2013.

8. PARCIO CEIR YR ANABL

a) Yn unol â chais aelod, rhoddwyd ystyriaeth i'r mater o barcio ceir yr anabl ar draethau ac ar diroedd yr Adran Forwrol.

b) Nododd yr aelod bod 6% o feysydd parcio'r Cyngor yn cael eu neilltu ar gyfer yr anabl a bod anghysondeb felly gan nad yw hyn yn bodoli ar draethau.

Cyfeiriodd yn benodol at Draeth Morfa Bychan a nododd mai dyma'r unig le yn yr ardal sy'n cynnig cyfle i berson anabl fynd ar draeth hefo'i gar.

c) Pryderai fod Deddf Cydraddoldeb yn cael ei thorri, ac yr oedd am weld pobl anabl, sydd wedi derbyn bathodyn glas i nodi'r anabledd gael mynd ar draeth Morfa Bychan yn ddi-dâl.

ch) Nododd y Cynghorydd Gwyn Davies ei fod yn berchen bathodyn glas, ond er gwybodaeth, nododd bod y bathodynnau bellach yn cynnwys gwybodaeth fanwl er sicrhau na fyddant yn cael eu camddefnyddio.

d) Mewn ymateb dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai tâl mynediad yn hytrach na thâl parcio oedd dan sylw, a bod tâl yn cael ei hawlio ar Draeth Morfa Bychan ers blynnyddoedd heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd.

Ychwanegodd bod sefyllfaoedd yn codi pryd mae'n anodd sicrhau tegwch i bawb, ac awgrymodd y gellid gwneud ymholiadau pellach fel y gellir cyflwyno adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD gohirio'r mater hyd y cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth 2013 fel y gellir cyflwyno adroddiad manwl i gynnwys sylwadau gan Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor.

9. CYLCHFAN

Nodwyd, er gwybodaeth, bod arian grant wedi ei gwneud yn bosib i'r Adran brynu bwi i'w osod ar gylchfan tu allan i Borthmadog. Cafwyd y bwi o 'Port of Boston' Swydd Lincoln ac mae hyn yn creu cysylltiad pendant gan mai yn Port of Boston y bu William Alexander Madocks yn Aelod Seneddol.

10. AMSER CYCHWYN Y CYFARFOD

Nodwyd fod rhai aelodau heb sylwi fod amser cychwyn y cyfarfod wedi newid o 6pm i 5pm ac y gallasai hyn fod wedi effeithio ar y presenoldeb.

PENDERFYNWYD cychwyn y cyfarfod nesaf, ar 6 Mawrth, 2013, am 5.30pm

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7.40pm

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Harbour Consultative Committee

06 Mawrth / March 2013

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.

Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.

1. Mordwyo ac Angorfeydd Navigation and Moorings

- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal Angorfeydd 2013 / 2013 Mooring Maintenance
- Costau Cynnal a Chadw / Cost of Maintenance
- Gwaredu a Diogelwch Tan Gwyllt / Disposal and Safety of Pyrotechnics
- Mynediad a Diogelwch Pontŵn / Access to Pontoon and Pontoon Safety

2. Ystadegau Morwrol Maritime Unit Statistics

- Ystadegau Cyffredinol / General Statistics

3. Cyllidebau Harbyrau Harbour Budgets

- Targedau Cyllideb Cyfredol 2012-13 / 2012-13 Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
- Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
- Ffioedd Angorfeydd Arfaethedig 2013 Proposed Fees and Charges

4. Gwelliannau / Improvements

- Ardal Borth y Gest Area
- Fforddfraint Harbwr / Harbour Wayleave
- Ymestyn Pontŵn / Pontoon Extension
- Morfa Bychan-Ffioedd Mynediad / Beach Entry Charges
- Gorfodaeth Maes Parcio Harbwr / Harbour Car Park Enforcement
- Gwobr Traeth / Beach Award 2013
- Ansawdd Dwr Ymdrochi / Bathing Water Quality
- Ymgynghoriad Gorchymun Cwn / Dog Control Orders Consultation

5. Staff Harbwr / Harbour Staff

- Trefniadau Gwanwyn/Haf 2013 – Spring/Summer Arrangements 2013
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

| DG53 - Harbwr Porthmadog | | | | | | | | | |
|---------------------------------|---------|-------------------------------|----------------|-------------|----------------|----------------|----------------|---------------|----------------|
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | mrwymadau | |
| AGWE | 0130 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 32,380 | -630 | 31,750 | 17,219 | -14,531 | 7,382 | -7,149 |
| | 0230 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 1,660 | -39 | 1,621 | 1,158 | -463 | | -463 |
| | 0330 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 7,190 | -140 | 7,050 | 3,771 | -3,279 | | -3,279 |
| | 0709 | Tanysg I Gyrrff Proffesiynol | 100 | 0 | 100 | 0 | -100 | | -100 |
| | 0731 | Lwfans Telffon | 330 | 0 | 330 | 0 | -330 | | -330 |
| AGWE | | Sum: | 41,660 | -809 | 40,851 | 22,147 | -18,704 | 7,382 | -11,322 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | mrwymadau | |
| BEID | 1200 | Cynnal A Chadw Adrannau | 12,820 | 0 | 12,820 | 0 | -12,820 | | -12,820 |
| | 1271 | Cynnal Offer Darganfod Tan | 0 | 0 | 0 | 44 | 44 | | 44 |
| | 1401 | Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol | 5,620 | 0 | 5,620 | 0 | -5,620 | | -5,620 |
| | 1404 | Offer A Chelfi - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 104 | 104 | | 104 |
| | 1440 | Contractwr - Taliadau Diogelu | 0 | 0 | 0 | 286 | 286 | | 286 |
| | 1490 | Ffyrdd A Phalmentydd | 0 | 0 | 0 | 18 | 18 | | 18 |
| | 1510 | Trydan | 1,320 | 0 | 1,320 | 1,527 | 207 | | 207 |
| | 1730 | Dwr - Mesurydd | 210 | 0 | 210 | 147 | -63 | | -63 |
| | 1830 | Offer Diffodd Tan-Pensaer | 0 | 0 | 0 | 75 | 75 | | 75 |
| | 1840 | Nwyddau Glanhau | 0 | 0 | 0 | 31 | 31 | | 31 |
| | 1845 | Casglu Sbwriel-Preifat | 840 | 0 | 840 | 722 | -118 | 8,000 | 7,882 |
| BEID | | Sum: | 20,810 | 0 | 20,810 | 2,954 | -17,856 | 8,000 | -9,856 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | mrwymadau | |
| CTRA | 2100 | Costau Rhedeg-Cerbydau/Peir | 610 | 0 | 610 | 0 | -610 | | -610 |
| | 2101 | Petrol | 0 | 0 | 0 | 206 | 206 | | 206 |
| | 2710 | Lwfansau Ceir - Cyffredinol | 60 | 0 | 60 | 0 | -60 | 464 | 404 |
| CTRA | | Sum: | 670 | 0 | 670 | 206 | -464 | 464 | 0 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | mrwymadau | |
| DCYF | 3100 | Offer A Chelfi-Gweithredol | 4,410 | 0 | 4,410 | 0 | -4,410 | | -4,410 |
| | 3110 | Offer Diogelwch | 0 | 0 | 0 | 39 | 39 | | 39 |
| | 3130 | Offer A Chelfi - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 4,570 | 4,570 | | 4,570 |
| | 3131 | Offer A Chelfi - Cnnl & Chdw | 0 | 0 | 0 | 374 | 374 | | 374 |
| | 3171 | Arwyddion Symudol - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 337 | 337 | | 337 |
| | 3183 | Cychod - Pryniant A C&Ch | 0 | 0 | 0 | 841 | 841 | | 841 |
| | 3801 | Lifrau Staff | 570 | 0 | 570 | 0 | -570 | | -570 |
| | 3810 | Dillad/Esgidiau Diogelwch | 0 | 0 | 0 | 543 | 543 | | 543 |
| | 3831 | Cotiau Oel A Thrymion | 0 | 0 | 0 | 40 | 40 | | 40 |
| | 3919 | Argraffu Papur Pwyllgor | 0 | 0 | 0 | 9 | 9 | | 9 |
| | 3939 | Defnyddiau Swyddfa | 520 | 0 | 520 | 259 | -261 | | -261 |
| | 4145 | Is-Contractwyr | 3,550 | 0 | 3,550 | 0 | -3,550 | | -3,550 |
| | 4201 | Postio A Chludo Tal U/Gyrchol | 100 | 0 | 100 | 1 | -99 | | -99 |
| | 4208 | Amlenni Rhagdaledig | 0 | 0 | 0 | 153 | 153 | | 153 |
| | 4210 | Teleffon | 620 | 0 | 620 | 248 | -372 | | -372 |
| | 4220 | Teleffonau Symudol | 100 | 0 | 100 | 63 | -37 | | -37 |
| | 4222 | Teleffon-Pryniant | 0 | 0 | 0 | 129 | 129 | | 129 |
| | 4263 | Radio Symudol-Trwydded | 150 | 0 | 150 | 150 | 0 | | 0 |
| | 4280 | Ad-Postio(*9365) | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | | 10 |
| | 4966 | Dileu-Dyledion,Sieciau,Amryw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,255 | 2,255 |
| DCYF | | Sum: | 10,020 | 0 | 10,020 | 7,765 | -2,255 | 2,255 | 0 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | mrwymadau | |
| INCM | 7983 | Gwerthu-Petrol/Diesel | -380 | 0 | -380 | 176 | 556 | -1,245 | -689 |
| | 8231 | Angorfeydd Parhaol | -27,110 | 0 | -27,110 | -27,471 | -361 | | -361 |
| | 8232 | Angorfeydd I Ymwelwyr | -2,260 | 0 | -2,260 | -701 | 1,559 | | 1,559 |
| | 8233 | Tollau Harbwr | -44,080 | 0 | -44,080 | -38,656 | 5,424 | | 5,424 |
| | 8234 | Lansio Cwch Power | -4,080 | 0 | -4,080 | -653 | 3,427 | | 3,427 |
| | 8237 | Lansio Jet Ski | 0 | 0 | 0 | -1,380 | -1,380 | | -1,380 |
| | 8241 | Maes Parcio | 0 | 0 | 0 | -2,583 | -2,583 | | -2,583 |
| | 8264 | Gwarged/Diffyg | 0 | 0 | 0 | -1 | -1 | | -1 |
| INCM | | Sum: | -77,910 | 0 | -77,910 | -71,269 | 6,641 | -1,245 | 5,396 |
| | | Cyfanswm | -4,750 | -809 | -5,559 | -38,197 | -32,638 | 16,856 | -15,782 |

DG50 - Traethau

| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymadau | |
|------|---------|-------------------------------|----------------|---------------|----------------|----------------|----------------|---------------|----------------|
| AGWE | 0130 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 37,140 | -730 | 36,410 | 14,902 | -21,508 | 10,611 | -10,897 |
| | 0150 | Gweithwyr Llaw | 95,630 | -1,870 | 93,760 | 107,409 | 13,649 | | 13,649 |
| | 0205 | Athrawon Preswyl | 0 | 0 | 0 | 155 | 155 | | 155 |
| | 0230 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 2,150 | 2 | 2,152 | 917 | -1,235 | | -1,235 |
| | 0250 | Gweithwyr Llaw | 3,950 | -79 | 3,871 | 6,427 | 2,556 | | 2,556 |
| | 0330 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 8,240 | -160 | 8,080 | 3,190 | -4,890 | | -4,890 |
| | 0350 | Gweithwyr Llaw | 4,600 | -90 | 4,510 | 3,380 | -1,130 | | -1,130 |
| | 0800 | Hyfforddiant | 2,650 | 0 | 2,650 | 0 | -2,650 | | -2,650 |
| | 0810 | Costau Arlwyo A Man Cyfarfod | 0 | 0 | 0 | 180 | 180 | | 180 |
| | 0817 | Hyfforddiant Cymorth Cyntaf | 0 | 0 | 0 | 270 | 270 | | 270 |
| | 0960 | Hysbysebu Am Weithwyr | 640 | 0 | 640 | 0 | -640 | | -640 |
| AGWE | | Sum: | 155,000 | -2,927 | 152,073 | 136,830 | -15,243 | 10,611 | -4,632 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymadau | |
| BEID | 1200 | Cynnal A Chadw Adrannau | 8,810 | 0 | 8,810 | 0 | -8,810 | | -8,810 |
| | 1223 | Gwasanaeth Plymio/Glanwaith | 0 | 0 | 0 | 175 | 175 | | 175 |
| | 1401 | Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol | 18,640 | 0 | 18,640 | 0 | -18,640 | | -18,640 |
| | 1407 | Arwyddion Ac Hysbysfyrddau | 0 | 0 | 0 | 15 | 15 | | 15 |
| | 1412 | Taliad Contractwyr (Tirlunio) | 0 | 0 | 0 | 1,399 | 1,399 | | 1,399 |
| | 1440 | Contractwr - Taliadau Diogelu | 0 | 0 | 0 | 279 | 279 | | 279 |
| | 1505 | Olew | 0 | 0 | 0 | 2,749 | 2,749 | | 2,749 |
| | 1510 | Trydan | 700 | 0 | 700 | 387 | -313 | | -313 |
| | 1522 | Nwy - Propane, Butane, Calor | 230 | 0 | 230 | 277 | 47 | | 47 |
| | 1602 | Rhenti - Adeiladau | 870 | 0 | 870 | 2,496 | 1,626 | | 1,626 |
| | 1612 | Les Yr Arfordir | 16,600 | 0 | 16,600 | 4,960 | -11,640 | | -11,640 |
| | 1711 | Treth Nndr-Cyngorau Eraill | 110 | 0 | 110 | 0 | -110 | | -110 |
| | 1730 | Dwr - Mesurydd | 310 | 0 | 310 | 1,645 | 1,335 | | 1,335 |
| | 1840 | Nwyddau Glanhau | 0 | 0 | 0 | 33 | 33 | | 33 |
| | 1850 | Nwyddau Glanhau Ffenest | 0 | 0 | 0 | 50 | 50 | 20,000 | 20,050 |
| BEID | | Sum: | 46,270 | 0 | 46,270 | 14,465 | -31,805 | 20,000 | -11,805 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymadau | |
| CTRA | 2101 | Petrol | 11,400 | 0 | 11,400 | 346 | -11,054 | | -11,054 |
| | 2102 | Derv | 8,170 | 0 | 8,170 | 1,174 | -6,996 | | -6,996 |
| | 2103 | Trwyddedau Cerbydau | 1,220 | 0 | 1,220 | 1,248 | 28 | | 28 |
| | 2104 | Diesel Coch | 540 | 0 | 540 | 0 | -540 | | -540 |
| | 2105 | Teiars/Tiwbiau | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 | | 8 |
| | 2107 | Diesel Tanciau | 0 | 0 | 0 | 6,296 | 6,296 | | 6,296 |
| | 2110 | Olew Iro | 100 | 0 | 100 | 0 | -100 | | -100 |
| | 2115 | Cynnal A Chadw,Sbarion Ayb | 8,290 | 0 | 8,290 | 371 | -7,919 | | -7,919 |
| | 2117 | Prawf Mot | 0 | 0 | 0 | 88 | 88 | | 88 |
| | 2140 | Costau Rheoli Fflyd | 3,410 | 0 | 3,410 | 2,558 | -852 | | -852 |
| | 2170 | Trwsio -Llafur | 0 | 0 | 0 | 3,148 | 3,148 | | 3,148 |
| | 2171 | Trwsio-Defnyddiau | 0 | 0 | 0 | 6,655 | 6,655 | | 6,655 |
| | 2172 | Cynnal Arferol-Llafur | 0 | 0 | 0 | 897 | 897 | | 897 |
| | 2320 | Cludiant - Lesu Gweithredol | 0 | 0 | 0 | 3,655 | 3,655 | | 3,655 |
| | 2710 | Lwfansau Ceir - Cyffredinol | 0 | 0 | 0 | 67 | 67 | 4,000 | 4,067 |
| CTRA | | Sum: | 33,130 | 0 | 33,130 | 26,511 | -6,619 | 4,000 | -2,619 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymadau | |
| DCYF | 3010 | Offer Swyddfa - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 20 | 20 | | 20 |
| | 3100 | Offer A Chelfi-Gweithredol | 12,500 | 0 | 12,500 | 0 | -12,500 | | -12,500 |
| | 3103 | Offer Cymorth Gweledol | 0 | 0 | 0 | 965 | 965 | | 965 |
| | 3110 | Offer Diogelwch | 0 | 0 | 0 | 1,701 | 1,701 | | 1,701 |
| | 3130 | Offer A Chelfi - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 1,944 | 1,944 | | 1,944 |
| | 3131 | Offer A Chelfi - Cnnl & Chdw | 0 | 0 | 0 | 2,156 | 2,156 | | 2,156 |
| | 3132 | Offer A Chelfi - Hurio | 0 | 0 | 0 | 1,226 | 1,226 | | 1,226 |
| | 3138 | Offer Gweithdy Trwm - Hurio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| | 3139 | Cytundeb Cynhaliath | 0 | 0 | 0 | 2,156 | 2,156 | | 2,156 |
| | 3171 | Arwyddion Symudol - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 802 | 802 | | 802 |
| | 3183 | Cychod - Pryniant A C&Ch | 0 | 0 | 0 | 2,485 | 2,485 | | 2,485 |
| | 3759 | Bwydydd Cyffredinol | 0 | 0 | 0 | 59 | 59 | | 59 |
| | 3800 | Dillad Lîfrau A'U Golchi | 3,330 | 0 | 3,330 | 0 | -3,330 | | -3,330 |
| | 3810 | Dillad/Esgidiau Diogelwch | 0 | 0 | 0 | 2,681 | 2,681 | | 2,681 |
| | 3831 | Cotiau Oel A Thrymion | 0 | 0 | 0 | 74 | 74 | | 74 |
| | 3839 | Offer Personol Eraill | 0 | 0 | 0 | 495 | 495 | | 495 |
| | 3920 | Argraffu - Cyffredinol | 0 | 0 | 0 | 261 | 261 | | 261 |
| | 3939 | Defnyddiau Swyddfa | 2,460 | 0 | 2,460 | 49 | -2,411 | | -2,411 |
| | 3941 | Man-Ddefnyddiau Cyfrifiadurol | 0 | 0 | 0 | 137 | 137 | | 137 |
| | 3980 | Argraffu Canolog (C9362) | 0 | 0 | 0 | 36 | 36 | | 36 |

| | | | | | | | | | |
|-------------|----------------|-------------------------------|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------|-------------------|---------------|
| | 4156 | Hurio Cwmni Diogelwch | 0 | 0 | 0 | 930 | 930 | | 930 |
| | 4201 | Postio A Chludo Tal U/Gyrchol | 0 | 0 | 0 | 13 | 13 | | 13 |
| | 4210 | Teleffon | 6,200 | 0 | 6,200 | 5,253 | -947 | | -947 |
| | 4220 | Teleffonau Symudol | 770 | 0 | 770 | 312 | -458 | | -458 |
| | 4222 | Teleffon-Pryniant | 0 | 0 | 0 | 98 | 98 | | 98 |
| | 4263 | Radio Symudol-Trwydded | 380 | 0 | 380 | 0 | -380 | | -380 |
| | 4280 | Ad-Postio(*9365) | 0 | 0 | 0 | 19 | 19 | | 19 |
| | 4713 | Tanysgriafiadau | 160 | 0 | 160 | 0 | -160 | | -160 |
| | 4802 | Gwariant Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 480 | 480 | | 480 |
| | 4811 | Ffioedd Amrywiol | 0 | 0 | 0 | 25 | 25 | | 25 |
| | 4903 | Treth "Landfill" | 0 | 0 | 0 | 47 | 47 | | 47 |
| | 4911 | Anifeiliaid Wedi Marw | 0 | 0 | 0 | 218 | 218 | | 218 |
| | 4921 | Trwydded Rheolaeth Gwastraff | 0 | 0 | 0 | 168 | 168 | | 168 |
| | 4969 | Gwella'R Amgylchedd | 0 | 0 | 0 | 150 | 150 | | 150 |
| | 4975 | Apeliadau - Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 937 | 937 | | 937 |
| | 4988 | Pryniant Ar Gyfer Profion | 0 | 0 | 0 | 1,449 | 1,449 | 3,000 | 4,449 |
| DCYF | | Sum: | 25,800 | 0 | 25,800 | 27,347 | 1,547 | 3,000 | 4,547 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymadau | |
| ETRY | 5210 | Casglu Sbwriel-Sylfaenol | 136,450 | 0 | 136,450 | 0 | -136,450 | 136,450 | 0 |
| | 5218 | Casglu Sbwriel(Atodol) | 5,620 | 0 | 5,620 | 783 | -4,837 | 4,837 | 0 |
| | 5716 | Contractwyr Allanol | 3,380 | 0 | 3,380 | 730 | -2,650 | 2,650 | 0 |
| ETRY | | Sum: | 145,450 | 0 | 145,450 | 1,513 | -143,937 | 143,937 | 0 |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymadau | |
| INCM | 7505 | Ad-Daliad Cynghorau Eraill | 0 | 0 | 0 | -7,000 | -7,000 | -2,812 | -9,812 |
| | 7641 | Tenantiad-Ad Trydan/Dwr | 0 | 0 | 0 | -1,108 | -1,108 | | -1,108 |
| | 7670 | Rhoddion | 0 | 0 | 0 | -3,670 | -3,670 | | -3,670 |
| | 7671 | Incwm Uned Ffilmiau | 0 | 0 | 0 | -1,103 | -1,103 | | -1,103 |
| | 7993 | Gwerthu - Cerbydau | 0 | 0 | 0 | -4,735 | -4,735 | | -4,735 |
| | 8061 | Cofrestru Cwch Pwer | -540 | 0 | -540 | -35,232 | -34,692 | | -34,692 |
| | 8069 | Cofrestru Jet Ski | -8,060 | 0 | -8,060 | -9,576 | -1,516 | | -1,516 |
| | 8234 | Lansio Cwch Power | -33,720 | 0 | -33,720 | -14,524 | 19,196 | | 19,196 |
| | 8236 | Consesiynnu | -19,030 | 0 | -19,030 | -15,143 | 3,887 | | 3,887 |
| | 8237 | Lansio Jet Ski | 0 | 0 | 0 | -21,687 | -21,687 | | -21,687 |
| | 8241 | Maes Parcio | -151,200 | 0 | -151,200 | -66,474 | 84,726 | | 84,726 |
| | 8675 | Rhenti - Pori | 0 | 0 | 0 | -150 | -150 | | -150 |
| | 8690 | Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff. | 0 | 0 | 0 | -937 | -937 | | -937 |
| INCM | | Sum: | -212,550 | 0 | -212,550 | -181,339 | 31,211 | -2,812 | 28,399 |
| | | Cyfanswm | 193,100 | -2,927 | 190,173 | 25,326 | -164,847 | 178,736 | 13,889 |

Awdurdod Harbwr Porthmadog Harbour Authority
2013 / 2014

| | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 | |
|---|--|---|---|---|--|
| | Lleol Local Ex VAT 2% | Lleol Local Inc VAT 2% | Eraill Others Ex. VAT 2% | Eraill Others Inc.VAT 2% | |
| Tollau Harbwr y fedr (taliad blynyddol, pob cwch) | 31.43 | 37.71 | 32.68 | 39.22 | Harbour Dues per meter (annual fee, all vessels) |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1 | 308.91 | 370.70 | 380.87 | 457.04 | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2 | 287.80 | 345.36 | 361.87 | 434.24 | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3 | 266.69 | 320.03 | 338.64 | 406.37 | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1 | 277.78 | 333.33 | 349.20 | 419.04 | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2 | 256.66 | 308.00 | 328.08 | 393.70 | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3 | 235.55 | 282.66 | 309.08 | 370.90 | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1 | 180.75 | 216.9 | 223.99 | 268.79 | Drying Mooring + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3 | 138.53 | 166.23 | 181.76 | 218.11 | Drying Mooring + Harbour Dues Area 3 |
| Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest | 41.59 | 59.89 | 49.91 | 59.89 | Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest |
| <i>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</i> | | | | | <i>Visiting Vessels – Daily or part of day</i> |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd | 5.00 | 6.00 | | | Gwynedd Council Harbour/Marina Clients |
| Pob Cwch Ymweld Arall | | | 5.00 | 6.00 | All Other Visiting Vessels |
| <i>Ardal 4 Borth-y-Gest</i> | | | | | <i>Area 4 Borth-y-Gest</i> |
| Pris y fedr am flwyddyn Angorfeydd ar gael i rhai sydd yn breswyl yn barhaol, a llawn amser yng Ngwynedd | 18.15 | 21.78 | 32.68 | 39.22 | Price per meter per annum Mooring fees available for individuals who reside in Gwynedd permanently, and full time |
| Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan | 0.63 | 0.76 | 0.63 | 0.76 | Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of |
| Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr | 1,377 | 1,652,40 | 1,377 | 1,652.40 | Park and Launch License – max 50 vessels |
| Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau | | | | | Launching fees – as per beach launching fees |
| Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% Tollau Harbwr | 145.70 | 174.84 | 145.70 | 174.84 | Vessels on winter moorings + 25% Harbour Dues |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rule 1/18 | Rule 1/18 | Rule 1/18 | Rule 1/18 | Cancellation of mooring (Discretionary) |

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit

FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES

| Prisiau Eithrio TAW | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | Prices exclude VAT |
|---|----------------|----------------|----------------|--|
| Rhaff priodol i angorfa. a gefynnau. (macsimwm 5 medr) | 17.50 | ----- | ----- | Suitable mooring warp including shackle, (Maximum 5 Meters) |
| Rhaff cysylltiol a bwi codi | 20.00 | 22.00 | 25.00 | Link line and pickup buoy |
| Gosod rhaffau angorfeydd | 25.00 | 30.00 | 35.00 | Fitting of mooring lines. |
| Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr) | 36.47 | 37.93 | 38.50 | Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel) |
| Trwydded Cychwyr - Pwer {Dim TAW} | 40.00 | 50.00 | 50.00 | Boatman's Licence - Power { No VAT } |
| Trwydded Perchennog - Pwer {Dim TAW} | 50.00 | 60.00 | 60.00 | Proprietor's Licence - Power { No VAT } |
| Trwydded Cwch Pleser - Rhwyfo { Dim TAW } | 10.00 | 12.00 | | Pleasure Boat Licence - Rowing { No VAT } |
| Cychod hwylio dingi gyda/heb peiriant (Dyddiol) | 4.17 | ----- | ----- | Sailing dinghy with/without outboards (Daily) |
| Cychod hwylio dingi gyda/heb peiriant (Tymhorol) | 37.50 | 41.66 | ----- | Sailing dinghy with/without outboards (Seasonal) |
| Cychod pwr hyd at 3.5 medr - peiriant dan 10HP (Dyddiol) Ceisiadau mewn person yn unig | 4.58 | ----- | ----- | Powerboats up to 3.5 metres - engine under 10HP (Daily) In person applications only |
| Cychod pwr hyd at 3.5 medr - peiriant dan 10HP (Blwyddyn) Ceisiadau mewn person yn unig | 45.83 | ----- | ----- | Powerboats up to 3.5 metres - engine under 10HP (Annual) In person applications only |



Gwasanaeth Morwrol / Maritime Unit

Ffioedd Lansio a Cofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees



01/04/2013 – 31/03/2014

Holl ffioedd yn cynnwys TAW / All fees inclusive of VAT

| Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach) | 2012/13 | 2013/14 | Renewal Fees (Small Permits) |
|--|------------------|------------------|---|
| Cofrestru Blynyddol - Trwyddedau Cofrestru Bach yn unig Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol yn unig Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 25.00 30.00 | 25.00 30.00 | Annual Re-registration – Small Registration permits only Postal applications to the Council Maritime Office only In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Mawr a Bychan) | | | Renewal Fees (Large and Small Permits) |
| Cofrestru Blynyddol - Rhifau Adnabod + Trwydded Cofrestru Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 35.00 40.00 | 35.00 40.00 | Annual Registration – Identification Number + Registration Permits Postal applications to the Council Maritime Office only In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| Ceisiadau Newydd | | | New Applications |
| Cofrestru Blynyddol - Rhifau Adnabod + Trwydded Cofrestru Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 35.00 40.00 | 35.00 40.00 | Annual Registration – Identification No + Registration Permits Postal applications to the Council Maritime Office only In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| Trwyddedau Lansio | | | Launching Permit |
| Lansio dyddiol Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 12.00 | 10.00 | Daily launch At the Harbour Offices or at the Beaches |
| Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) – cynnwys ffi cofrestru Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 130.00 150.00 | 130.00 150.00 | Annual Launching (1 April – 31 March) – inclusive of registration fee Postal applications to the Council Maritime Office In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| Trosglwyddo / Aiddodiad | | | Transfer / Replacement |
| Ceisiadau drwy'r post yn unig - Prif Swyddfa Forwrol Trwyddedau Cofrestru yn unig (Trwyddedau Bach) Rhifau Adnabod a Trwyddedau Cofrestru (Trwyddedau Mawr + Bach) | 25.00 35.00 | 25.00 35.00 | Postal application only - Council Maritime Office Registration permits only (Small Permits) Identification Numbers and Registration Permits (Large + Small Permits) |
| Cychod llai na 10 HP | | | Vessels under 10 HP |
| Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau mewn person yn unig Harbyrau neu'r Traethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio | 20.00 | 20.00 | Annual Registration Fee - In person application only Harbour or Beaches, with vessel available for inspection |

Chwyddiant ar Incwm 2013-14

| | Gwariant Col 18 £ | Gwariant Col 30 £ | Chwyddiant Gwariant Col 31 £ | Addasu £ | Gwariant Terf £ | Gwahaniaeth mewn £ | Gwahaniaeth mewn % % | Cynnydd £ yn y Targed Chwyddiant Col 31 iii £ | Targed Terfynol Col 34 £ |
|-------------------|-------------------------|-------------------------|---------------------------------------|-------------|-----------------------|-----------------------|----------------------------|---|--------------------------------|
| Hafan | 552,630 | 556,440 | 5,750 | | 562,190 | 9,560 | 1.73% | -30,100.00 | -1,560,550.00 |
| Traethau | 404,700 | 405,860 | 4,670 | | 410,530 | 5,830 | 1.44% | -3,070.00 | -215,620.00 |
| Harbwr Pwllheli | 54,350 | 54,440 | 570 | | 55,010 | 660 | 1.21% | -1,270.00 | -105,080.00 |
| Harbwr Porthmadog | 72,630 | 73,780 | 550 | | 74,330 | 1,700 | 2.34% | -1,820.00 | -79,730.00 |
| Harbwr Abermaw | 63,330 | 63,360 | 670 | | 64,030 | 700 | 1.11% | -540.00 | -48,900.00 |
| Harbwr Aberdyfi | 78,260 | 78,410 | 640 | | 79,050 | 790 | 1.01% | -410.00 | -41,110.00 |
| Cyfanswm Harbyrau | 268,570 | 269,990 | 2,430 | | 272,420 | 3,850 | 1.43% | -4,040.00 | -274,820.00 |
| Doc Fic | 88,430 | 88,490 | 1,010 | | 89,500 | 1,070 | 1.21% | -1,380.00 | -114,930.00 |
| Padarn | 195,310 | 195,720 | 1,800 | | 197,520 | 2,210 | 1.13% | -2,250.00 | -170,080.00 |
| Glynllifon | 112,200 | 112,290 | 1,780 | | 114,070 | 1,870 | 1.67% | -1,740.00 | -85,940.00 |

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit

Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

| <i>Blwyddyn Year</i> | <i>Harbwr Aberdyfi</i> | <i>Harbwr Abermaw</i> | <i>Harbwr Porthmadog</i> | <i>Harbwr Pwllheli</i> | <i>Morfa Bychan</i> | <i>Traethau Gwynedd</i> | <i>Swyddfa Office</i> | <i>Cyfanswm Total</i> |
|--------------------------|------------------------------|--------------------------------------|------------------------------|----------------------------|-------------------------|---|---------------------------|---------------------------|
| 2005 | 82 | 125 | 120 | 239 | 56 | 184 Abersoch | 137 | 943 |
| 2006 | 80 | 121 | 58 | 199 | 80 | 187 Abersoch | 332 | 1057 |
| 2007 | 45 | 111 | 39 | 183 | 46 | 102 Abersoch 8 Machroes 40 Trefor | 617 | 1191 |
| 2008 | 37 Harbwr 3 Tywyn | 92 | 30 | 147 | 25 | 65 Abersoch a Machroes 18 Trefor | 659 | 1076 |
| 2009 | 47 Harbwr 1 Tywyn | 81 Abermaw 24 Caerddaniel | 26 | 123 | 30 | 95 Abersoch 15 Machroes 29 Trefor | 702 | 1173 |
| 2010 | 37 Harbwr 0 Tywyn | 112 Abermaw 16 Caerddaniel | 28 | 160 | 32 | 110 Abersoch 17 Machroes 90 Warren 18 Trefor 17 Nefyn 38 Morfa Nefyn | 714 | 1389 |
| 2011 | 25 Harbwr 1 Tywyn | 63 Abermaw 7 Caerddaniel | 24 | 150 | 29 | 62 Abersoch 12 Machroes 12 Warren 31 Trefor 6 Nefyn 46 Morfa Nefyn | 701 | 1169 |
| 2012 | 23 Harbwr 4 Tywyn | 48 Abermaw 18 Caerddaniel | 23 | 23 | 8 | 70 Abersoch 4 Machroes 13 Trefor 14 Nefyn 25 Morfa Nefyn | 595 | 868 |

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit

Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

| <i>Blwyddyn Year</i> | <i>Harbwr Aberdyfi</i> | <i>Harbwr Abermaw</i> | <i>Harbwr Porthmadog</i> | <i>Harbwr Pwllheli</i> | <i>Morfa Bychan</i> | <i>Traethau Gwynedd</i> | <i>Swyddfa Office</i> | <i>Cyfanswm Total</i> |
|--------------------------|----------------------------|-------------------------------------|------------------------------|----------------------------|-------------------------|--|---------------------------|---------------------------|
| 2005 | 56 | 153 | 416 | 162 | - | - | 408 | 1195 |
| 2006 | 51 | 148 | 136 | 108 | 230 | 136 Abersoch | 399 | 1208 |
| 2007 | 31 | 111 | 66 | 79 | 175 | 90 Abersoch 11 Machroes 6 Trefor | 471 | 1040 |
| 2008 | 32 | 79 | 46 | 68 | 150 | 91 Abersoch a Machroes 2 Trefor | 403 | 871 |
| 2009 | 27 Aberdyfi 3 Tywyn | 69 Abermaw 18 Caerddaniel | 45 | 51 | 185 | 107 Abersoch 8 Machroes | 374 | 892 |
| 2010 | 27 Aberdyfi | 83 Abermaw 17 Caerddaniel | 39 | 63 | 201 | 99 Abersoch 3 Machroes 22 Warren 1 Trefor 1 Nefyn 9 Morfa Nefyn | 400 | 965 |
| 2011 | 23 Aberdyfi | 39 Abermaw 3 Caerddaniel | 51 | 65 | 168 | 71 Abersoch 3 Machroes 9 Warren 3 Nefyn 8 Morfa Nefyn | 382 | 825 |
| 2012 | 9 | 37 Abermaw 7 Caerddaniel | 24 | 7 | 86 | 53 Abersoch 2 Machroes 1 Trefor 3 Nefyn 6 Morfa Nefyn | 390 | 625 |

Morfa Bychan / Black Rock Sands**Cyngor - Council:** Cyngor Gwynedd

| | | |
|-----------------------|---|--------------------------|
| Blwyddyn - Year: 2012 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2011 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2010 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2009 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2008 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2007 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2006 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2005 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2004 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2003 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2002 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Ardderchog | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2001 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2000 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1999 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1998 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1997 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1996 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1995 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1994 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Gwael | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1993 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1992 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Gwael | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1991 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Gwael | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1990 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: Da | Water quality: Good |


Tabl Data Table

| | Dyddiad Date | intestinal enterococci colonies/100ml | escherichia coli colonies/100ml | total coliform colonies/100ml | faecal coliform colonies/100ml | faecal streptococci colonies/100ml | Safon Classification |
|----|---------------------------------|---|------------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------|--|-------------------------|
| 1 | 11/05/12 2:50:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 2 | 21/05/12 2012 12:40:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 3 | 27/05/12 12:40:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 4 | 31/05/12 11:10:00 AM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 5 | 08/06/12 1:10:00 PM | 109 | 450 | | | | Isafswm/Minimum |
| 6 | 14/06/12 12:40:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 7 | 19/06/12 3:05:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 8 | 27/06/12 1:05:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 9 | 03/07/12 4:55:00 PM | < 10 | 82 | | | | Uwch / Higher |
| 10 | 13/07/12 | < 10 | 36 | | | | Uwch / Higher |

| | | | | | | | |
|----|-------------------------|------|------|--|--|--|-----------------|
| 11 | 19/07/12 10:00:00 AM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 12 | 25/07/12 4:15:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 13 | 31/07/12 1:25:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 14 | 10/08/12 12:25:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 15 | 18/08/12 11:05:00 AM | 340 | 900 | | | | Isafswm/Minimum |
| 16 | 28/08/12 3:05:00 PM | < 10 | 27 | | | | Uwch / Higher |
| 17 | 05/09/12 11:05:00 AM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 18 | 13/09/12 2:10:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 19 | 19/09/12 2:05:00 PM | < 10 | < 10 | | | | Uwch / Higher |
| 20 | 25/09/12 12:10:00 PM | 27 | 91 | | | | Uwch / Higher |

DYNESIAD I BORTHMADOG APPROACHES TO PORTHMADOG

Mae'r sianel yn newid cwrw yn rheolaidd.
Cynghorir bod morwyr yn cysylltu gyda'r
harbwr pe bydd y siart hwn yn fwy na mis
oed. Mae yn anrffod eich bod yn cysylltu â'r
Harbwr Feistr am fanylion diweddaraf.
ffon/facs 01766 512927 Sym 07879433147
Email DaveO'Neill@gwynedd.gov.uk



Codwyd ar 13/09/12
David John O'Neill

**Cynghorir morwyr i beidio a mordyo dros y
traethell oni bai oddi fewn 2 awr pob ochr
pen llanw. (dibynol ar gyflwr y mor)**

| | | |
|-----------------|---------------|----------------|
| Tramwyo | 52° 53.008' N | 004° 11.097' W |
| Rh 1 Starboard | 52° 52.974' N | 004° 10.637' W |
| Rh 2 Port | 52° 53.014' N | 004° 10.326' W |
| Rh 3 Starboard | Off Station | Off Station |
| Rh 4 Port | 52° 53.108' N | 004° 09.970' W |
| Rh 5 Starboard | 52° 53.224' N | 004° 09.673' W |
| Rh 6 Port | 52° 53.433' N | 004° 09.558' W |
| Rh 7 Starboard | 52° 53.725' N | 004° 09.324' W |
| Rh 8 Port | 52° 53.839' N | 004° 09.157' W |
| Rh 9 Starboard | 52° 53.999' N | 004° 08.843' W |
| Rh 10 Port | 52° 54.162' N | 004° 08.632' W |
| Rh 11 Starboard | 52° 54.442' N | 004° 08.678' W |
| Rh 12 Port | 52° 54.324' N | 004° 08.820' W |
| Port Dros dro | 52° 54.670' N | 004° 08.327' W |
| Rh 13 Starboard | 52° 54.587' N | 004° 08.516' W |
| Rh 14 Port | 52° 54.893' N | 004° 07.985' W |
| Rh 15 Starboard | 52° 54.792' N | 004° 08.096' W |
| Rh 17 Starboard | 52° 55.004' N | 004° 07.871' W |

Fairway Buoy
L Fl W 10s
52° 53' 008" N
004° 11' 097" W



1, Q FLG

2, Q FLR

4, FL R (2)5s

5, FL G (2)5s

6, FL R (3)10s

7, FL G (3)10s

8, FL R (4)15s

9, FL G (4)15s

10 FIR 2.5s

12, FL R 4s

11, FL G (5)20s

13, FL G 2s

15, FL G 4s

14, FL R 6s

17, FL G 6s